

CYMRU GWYBODAETH DDIWEDDARAF PEDESTRIAN POUND



transport for quality of life

paths
for all

FOR A HAPPIER,
HEALTHIER SCOTLAND





CYDNABYDDIAETHAU

Hoffai'r awduron ddiolch i'r canlynol am gymorth gydag astudiaethau achos Cymru, mewnbyn yn ystod gweithdy rhanddeiliaid Cymru a/neu adolygiad o'r Atodiad hwn (yn nhrefn yr wyddor yn ôl sefydliad a chyfenw):

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent (Amy Taylor); Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (Hamish Munro); Cyngor Caerdydd (Michael Biddulph, Chris Hanson); Prifysgol Caerdydd (Catherine Purcell, Francesca Sartorio); Chris Jones Ymgynghoriaeth Adfywio (Chris Jones); Comisiwn Dylunio Cymru (Heal Jen); FOR Cardiff (Emily Cotterill); Cyfeillion y Ddaear Cymru (Haf Elgar); Sefydliad Materion Cymreig (Joe Rossiter); Living Streets (Julia Crear, Aisha Hannibal, Rachel Lee); Grŵp Ucheldir Living Streets (Jane Tonks); Cyngor Bwrdeistref Merthyr Tudful (Anouska Beaumont); Cyngor Sir Fynwy (Madeleine Boase, Daniel Fordham); Cymorth Cynllunio Cymru (Francesco Sartorio); Iechyd Cyhoeddus Cymru (John Bradley); RNIB Cymru (Kirsty James); Roberts Limbrick (Chris Gentle); Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol (RTPI) (Rhian Brimble); Sustrans Cymru (Christine); Trafnidiaeth Cymru (Matthew Gilbert, Robert Gravelle, Boston Dave McCullough, Gwyn Smith); Urban Foundry (Ben Reynolds); Cyngor Bro Morgannwg (Mererid Velios); Llywodraeth Cymru (Natalie Grohmann, Hayley Keohane).

CYMRU**CYNNWYS**

Cyflwyniad **4**

Cyd-destun daearyddol a chymdeithasol **4**

Canfyddiadau'r gweithdy **5**

Cyd-destun polisi **6**

Strydoedd mawr a thir y cyhoedd **6**

Cerdded **7**

Canfyddiadau'r gweithdy **8**

Lefelau cerdded a rhannu modd **9**

Cyd-destun ariannu **11**

Canfyddiadau'r gweithdy **11**

Cyflwyno a gwerthuso **11**

Canfyddiadau'r gweithdy **12**

Argymhellion **13**

Polisi **13**

Cyllid **13**

Cyflawni **13**

Gwerthuso **13**

Astudiaethau achos **14**

Cyfeirnodau **15**

Cyflwyniad

Mae'r Atodiad hwn yn nodi'r cyd-destun ar gyfer gwelliannau i dir y cyhoedd a cherdded i strydoedd mawr yng Nghymru, gan gynnwys y cyd-destun daearyddol a'r cyd-destun cymdeithasol, yn ogystal â thargedau allweddol, polisïau, cyllid a mecanweithiau cyflawni ar gyfer cynlluniau o'r fath. Mae'r dystiolaeth ar gyfer mwy o fuddsoddiad mewn strydoedd mawr cerddadwy i'w gweld yn y prif adroddiad sy'n cynnwys enghreifftiau o astudiaethau achos o Gymru. Nod yr Atodiad hwn yw helpu i nodi'r cyd-destun penodol i Gymru mae'r penderfyniadau hynny'n cael eu gwneud ynddo a'r cyfleoedd a'r rhwystrau i'r buddsoddiad hwnnw.

Mae'r Atodiad hwn ar gyfer unrhyw un sydd am ddeall y cyd-destun a'r polisïau a'r mecanweithiau allweddol ar gyfer cyflawni gwelliannau i dir y cyhoedd a cherdded yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys pobl newydd i'r sector a phobl o sectorau eraill neu genhedloedd eraill. Mae argymhellion hefyd ar gyfer llunwyr polisi yng Nghymru.

Mae'r Atodiad hwn yn cael ei lywio gan ganfyddiadau gweithdy i randdeiliaid yng Nghymru a gynhaliwyd ym mis Ebrill 2024, wedi'i drefnu Transport for Quality of Life, i lywio'r ymchwil ar gyfer y rhifyn hwn The Pedestrian Pound. Roedd y cynrychiolwyr yn cynnwys llunwyr polisi, ymarferwyr, cyrff proffesiynol, academyddion, elusennau ac actifyddion o bob cwr o Gymru.

Cyd-destun daearyddol a chymdeithasol

Mae adolygiad cyd-destun cymdeithasol Cymru yn nodi llawer o heriau, ond mae'r rhain hefyd yn cyflwyno cyfle am ymyriadau sy'n hyrwyddo ac yn galluogi mwy o gerdded i gael effaith gadarnhaol sylweddol ar iechyd, tlodi trafndiaeth a mynediad at gyfleoedd.

Mae Cymru yn genedl gymharol wledig o fewn y DU, gyda phoblogaeth o 3.1 miliwn yn 2022 (Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2024). Mae'r mwyafrif (65%) o drigolion yn byw mewn ardaloedd trefol (a 35% mewn ardaloedd gwledig¹) (Woods, 2021). Fe'i disgrifir fel 'gwlad o drefi, pentrefi a chymunedau bychain rhyngddibynnol' gyda'r mwyafrif (86%) yn byw o fewn pum milltir i ganol tref (Archwilio Cymru, 2021). Mae hyn yn golygu bod hwyluso teithiau cerdded o fewn trefi cywasgedig a rhwng aneddiadau, ac integreiddio cerdded â thrafnidiaeth gyhoeddus, yn allweddol. Bydd gwelliannau i dir y cyhoedd sy'n gwella cerddedadwyedd canol trefi lleol o fudd i drigolion aneddiadau o bob maint.

Mae'r boblogaeth yng Nghymru yn dlotach ar y cyfan ac mae ganddi lefelau uwch o ordewdra ac anweithgarwch na gweddill y DU, a allai, fel y dangosir yn y prif adroddiad, gael ei helpu gan fuddsoddiad mewn cynlluniau tir y cyhoedd sy'n annog mwy o gerdded.

¹ Lle mae ardal wledig yn cael ei diffinio fel aneddiadau o lai na 10,000 o bobl.

Er enghraifft:

- Yr enillion wythnosol cyfartalog yng Nghymru yn 2023 oedd yr isaf o unrhyw un o genhedloedd y DU (Francis-Devine, 2024).
- Roedd bron i draean (32%) o oedolion yng Nghymru yn byw gyda gordewdra yn 2021-22, y lefelau uchaf o unrhyw un o bedair gwlad y DU (Bone, 2024).
- Cafodd bron i draean (32%) o ddynion a thros draean (36%) o ferched yng Nghymru eu dosbarthu fel rhai anweithgar yn 2019 (Cymdeithas Feddygol Prydain, 2019).

Er bod mwy o anghydraddoldebau iechyd o'i gymharu â Lloegr a'r Alban, canfuwyd bod dynion a merched yn ardaloedd mwyaf cefnog Cymru yn byw tua saith a chwe blynedd yn fwy yn y drefn honno, o gymharu â'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig (People's Health Trust, 2022).

Mae astudiaeth wedi canfod bod llawer o bobl ar draws pob rhan o Gymru yn dioddef o effeithiau tloti trafniadaeth. Yn y rhan fwyaf o ardaloedd yng Nghymru, amcangyfrifir bod angen i 40-50% o aelwydydd wario mwy na 10% o'u hincwm ar gostau rhedeg car (Sustrans Cymru, 2022).

Mae'r anghydraddoldebau trafniadaeth ac iechyd hyn yn golygu bod angen arbennig am fuddsoddi yn nhir y cyhoedd a gwelliannau cerdded yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig i helpu preswylwyr i elwa o'r effeithiau cadarnhaol ar iechyd a lles, economeg a chymuned, fel rhan o ffyniant bro.

Canfyddiadau'r gweithdy

Yng ngweithdy rhanddeiliaid Cymru, yn gyffredinol cytunodd cynrychiolwyr fod pobl yng Nghymru yn ymfalchïo mewn bod yn Gymru ac mae ganddynt ymdeimlad cryf o le ('cynefin' a 'milltir sgwâr') chysylltiad â chartref ('hiraeth'). Cytunwyd hefyd bod ymdeimlad cryf o gymuned a thraddodiad o bobl yn cymryd cyfrifoldeb dros eu trefi a'u pentrefi.

Teimlwyd bod natur wledig Cymru yn ffactor cadarnhaol a negyddol. Mae cynrychiolwyr yn cydnabod gwerth tirweddau unigryw Cymru ond yn ystyried y gall y topograffeg serth ar draws rhannau o Gymru fod yn her hefyd, drwy gynyddu amser a chostau prosiectau, a chyfyngu ar opsiynau dylunio. Er enghraifft, mae hyn yn wir yng nghymoedd De Cymru lle mae lle yn gyfyngedig, ac mae trefi a phentrefi yn ei hanfod yn ddatblygiadau rhuban ar ffyrdd drwodd prysur. Mae hefyd nifer o enghreifftiau o ffyrdd a rheilffyrdd yn torri cysylltiad cymunedau. Mae llawer o bobl nad ydynt yn byw o fewn pellter cerdded i ganol trefi ond, ar y llaw arall, mae llawer o bobl yn gyrru pan fydd cerdded yn bosibl. Awgrymwyd gan gynrychiolwyr fod gan Gymru hefyd berchnogaeth ceir isel ond dibyniaeth uchel ar geir oherwydd cynllunio a defnydd tir sy'n cael eu dominyddu gan geir, sy'n gadael tua 20% o'r boblogaeth heb fynediad i geir mewn perygl o ynysu cymdeithasol.

Cyd-destun polisi

Strydoedd mawr a thir y cyhoedd

Mae llawer o bolisiau Cymreig sy'n benodol ar gyfer cynllunio a chreu lleoedd. Mae adfywio canol trefi yn amcan hirsefydlog gan Lywodraeth Cymru, sydd wedi'i ail-gadarnhau yn Rhaglen Lywodraethu 2021-26.

Mae'r prif strategaethau, polisiau a chanllawiau sy'n berthnasol i welliannau i dir y cyhoedd yng Nghymru yn cynnwys:

- **Cymru'r Dyfodol — Cynllun Cenedlaethol 2040.** Hwn yw fframwaith datblygu cenedlaethol Cymru ac mae'n cynnwys ymagwedd polisi **Canol Trefi yn Gyntaf** cryf (gweler Polisi 6) (Llywodraeth Cymru, 2021a).
- Mae **Polisi Cynllunio Cymru — Argraffiad 12** yn darparu'r fframwaith polisi ar gyfer paratoi cynlluniau datblygu awdurdodau cynllunio lleol yn effeithiol yn ogystal â rheoli datblygu. Mae'n cynnwys gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer canol trefi a chreu lleoedd (Llywodraeth Cymru, 2024a).
- Fe wnaeth **Deddf Cynllunio (Cymru) 2015** gyflwyno'r defnydd o 'Gynlluniau Bro' dan arweiniad cymunedau lleol ac Ardaloedd Gwella Busnes (BIDs) (Llywodraeth Cymru, 2024b). Mae **Datganiad Sefyllfa Canol Tref** yn cefnogi polisi Canol Trefi yn Gyntaf ac yn nodi cyfres o gamau gweithredu sydd â'r nod o fynd i'r afael â heriau allweddol sy'n wynebu canol trefi (Llywodraeth Cymru, 2023a).
- Mae **Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 (Atodlen 3)** (a ddaeth i rym yng Nghymru ym mis Ionawr 2019) yn ei gwneud yn ofynnol i bob datblygiad newydd gynnwys Systemau Draenio Cynaliadwy sy'n cydymffurfio â safonau cenedlaethol.
- Mae **Siarter a Chanllaw Creu Lleoedd Cymru 2020** yn nodi chwe egwyddor creu lleoedd gan gynnwys 'tir y cyhoedd ac yn rhoi canllawiau ar greu lleoedd yng Nghymru (Partneriaeth Creu Lleoedd Cymru a'r Comisiwn Dylunio Cymru, 2020).
- Mae **Adeiladu Lleoedd Gwell** yn nodi blaenoriaethau polisi cynllunio Llywodraeth Cymru i gynorthwyo i weithredu ar ôl argyfwng pandemig COVID-19 (Llywodraeth Cymru, 2020a).
- **Cynlluniau Bro.** Mae'r rhain yn nodi anghenion seilwaith lleol ac yn cael eu datblygu gan bobl leol. Mae gan Cymorth Cynllunio Cymru becyn cymorth i gymunedau a chynllunwyr ar broses a manylion cynhyrchu cynlluniau (Cymorth Cynllunio Cymru, heb ddyddiad).
- **Pecyn Cymorth Creu Lleoedd i Gymru.** Mae hwn yn offeryn sydd ar ddod gan dîm amlddisgyblaethol o academyddion ac ymarferwyr, pedwar awdurdod lleol yng Nghymru, Comisiwn Dylunio Cymru (DCFW), Urban Design Group a Living Streets (Prifysgol Caerdydd, heb ddyddiad).
- Mae llawer o awdurdodau lleol wedi cynnwys gwelliannau i dir y cyhoedd fel rhan allweddol o'u rhaglenni adfywio. Mae ystod eang o sefydliadau lled-lywodraethol, preifat a'r trydydd sector yn helpu i hyrwyddo creu lleoedd a gwelliannau i dir y cyhoedd yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys **Comisiwn Dylunio Cymru**, sefydliad a ariennir gan Lywodraeth Cymru, sy'n hyrwyddo dylunio da yn yr

amgylchedd adeiledig i'r sectorau cyhoeddus a phreifat yng Nghymru (Comisiwn Dylunio Cymru, heb ddyddiad) a **Phartneriaeth Creu Lleoedd Cymru**, grwp amlddisgyblaethol o broffesiynau a sefydliadau sy'n gweithio ar yr amgylchedd adeiledig a naturiol a gyd-gynhyrchodd Siarter Creu Lleoedd Cymru (RTPI, heb ddyddiad). Mae **Ardaloedd Gwella Busnes (BIDs)**² hefyd yn chwarae rhan bwysig mewn adfywio'r stryd fawr (Archwilio Cymru, 2021) fel y mae **Cynghorau Tref a Chymuned**, sy'n aml yn gynullyddion BID.

Cerdded

Mae llawer o welliannau i dir y cyhoedd yn cynnwys cynlluniau teithio llesol. Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am bolisiau, strategaethau a chyllid cerdded tra bod Trafnidiaeth Cymru, cwmni nid-er-elw dan berchnogaeth lwyr, yn darparu cefnogaeth ac arbenigedd i brosiectau trafndiaeth Llywodraeth Cymru.

Er bod Llywodraeth y DU yn gyfrifol am rai agweddau ar drafndiaeth (megis seilwaith rheilffyrdd a breinio), fel cenedl ddatganoledig, mae gan Lywodraeth Cymru bwerau dros eraill gan gynnwys teithio llesol (yn ogystal ag iechyd, yr amgylchedd a chynllunio).

Mae dull polisi cyffredinol Llywodraeth Cymru yn cynnwys pwyslais gref ar gymuned, cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol, a dileu anghydraddoldeb (Llywodraeth Cymru, 2017a). Er enghraifft, mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn mynd ymhellach na'r hyn sy'n cyfateb yn Lloegr ac mae'n cynnwys darpariaethau penodol ynghylch ymgysylltu ac asesiadau effaith ar gydraddoldeb nad ydynt yn bresennol yn Neddf Lloegr (Llywodraeth Cymru, 2020b). Mae gan Gymru Dasglu Hawliau Anabledd a sefydlwyd yn 2023, gyda theithio yn un o'u meysydd blaenoriaeth (Llywodraeth Cymru, 2023b).

Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 unigryw yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy saith nod llesiant (Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, heb ddyddiad). Mae hefyd yn nodi 'pum ffordd o weithio' sy'n arwain sut y dylai sefydliadau'r sector cyhoeddus weithio tuag at yr amcanion hyn, sy'n gofyn am gydweithio a meddwl hir-dymor. Felly mae iechyd a lles dinasyddion yn ofyniad cyfreithiol i Lywodraeth Cymru ac ystod o gyrff cyhoeddus, ac mae wedi'i ymgorffori mewn polisiau ar draws y llywodraeth, gan gynnwys yng nghwricwlwm newydd Cymru.

Mae'r Ddeddf arloesol hon wedi helpu i lunio polisiau a strategaethau eraill. Er enghraifft, mae Llwybr Newydd, Strategaeth Drafndiaeth Cymru yn cael ei sbarduno gan yr angen i gyflawni tegwch cymdeithasol a chyrraedd targedau hinsawdd ac mae'n cynnwys cydnabyddiaeth benodol o'r angen am lai o geir ar y ffyrdd a mwy o drafndiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio. Mae'r Ddeddf hefyd wedi cael dylanwad cryf ar benderfyniadau polisi arloesol ar drafndiaeth, megis Adolygiad Ffyrdd Cymru (Llywodraeth Cymru, 2023c).

² Partneriaeth rhwng yr awdurdod lleol a busnesau lleol, a ariennir gan ardoll ar dalwyr trethi busnes yn ardal BID. Defnyddir y referenw o hyn i ddatblygu prosiectau a fydd yn gwella'r ardal leol, megis gwelliannau i'r maes cyhoeddus.

Mae'r prif strategaethau, polisiau, canllawiau a thargedau sy'n berthnasol i gerdded yn cynnwys:

- Llwybr Newydd: Mae Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021 yn rhoi cynaliadwyedd wrth wraidd cynllunio trafndiaeth yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2021b). Mae'n gosod targed newydd i 45% o deithiau gael eu gwneud drwy ddulliau cynaliadwy ledled Cymru erbyn 2045, i fyny o 32% yn 2019, er mwyn helpu i leihau allyriadau carbon deuocsid. Mae'r strategaeth hefyd yn ymgorffori'r 'Hierarchaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy', sy'n cael ei ddefnyddio i flaenoriaethu seilwaith trafndiaeth newydd ac yn gosod cerdded a beicio ar frig yr hierarchaeth. Dilynydd hyn gan Gynllun Cyflawni Trafnidiaeth newydd, fel y trafodwyd yn yr adran isod ar gyflawni.
- Mae Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol yng Nghymru fapio, cynllunio a hyrwyddo teithiau teithio llesol, gyda phwyslais arbennig ar annog newid moddol o geir i feicio a cherdded ar gyfer teithiau byr bob dydd. Mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol wneud gwelliannau flwyddyn ar ôl blwyddyn i'w llwybrau teithio llesol a'u cyfleusterau. Mae dwy ddogfen ganllaw statudol ar gyflenwi a dylunio yn cyd-fynd â'r Ddeddf (Llywodraeth Cymru, 2021c). Adolygwyd y Ddeddf gan y Senedd yn 2022 a gwnaeth 51 o argymhellion gan gynnwys yr angen am gynllun cyflawni newydd a monitro gwell (Senedd Cymru, 2023). Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno ar lawer o'r argymhellion hynny.
- Mae Deddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024 wedi cyflwyno dyletswyddau newydd i Weinidogion Cymru ac awdurdodau lleol i hyrwyddo teithio llesol fel ffordd o leihau neu gyfyngu ar lygredd aer (Browne Jacobson, 2024).
- Mae Gorchymyn Ffyrdd Cyfyngedig (Terfyn Cyflymder 20 mya) (Cymru) 2022 yn gwneud Cymru'r genedl gyntaf yn y DU i gyflwyno deddfwriaeth i gael terfyn cyflymder 20mya diodyfyn (Llywodraeth Cymru, 2024c).

Mae gan Gymru Fwrdd Teithio Llesol i gydlynu gweithgarwch i gefnogi gweithrediad Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn effeithiol. Mae gan y Bwrdd Gadeirydd annibynnol ac mae'r aelodau'n cynnwys Llywodraeth Cymru yn ogystal â rhanddeiliaid allanol ac aelodau annibynnol (Llywodraeth Cymru, heb ddyddiad).

Canfyddiadau'r gweithdy

Yng ngweithdy rhanddeiliaid Cymru, mynegodd cynrychiolwyr gefnogaeth gref i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a cytunwyd ei fod yn darparu gwledigaeth hirdymor, fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau ac yn annog meddwl cyd-gysylltiedig. Mae polisiau allweddol eraill a gefnogir gan gynrychiolwyr yn cynnwys polisi Canol Trefi yn Gyntaf, Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 sy'n darparu cyd-destun ar gyfer gwneud penderfyniadau, ynghyd â Llwybr Newydd (y strategaeth drafnidiaeth) a Pholisi Cynllunio Cymru, sydd ill dau yn pwysleisio hierarchaeth defnyddwyr trafndiaeth a'r integreiddio rhwng trafndiaeth, iechyd a chymunedau. Roedd arweinyddiaeth wleidyddol rhai gwleidyddion Cymru ar faterion trafndiaeth hefyd yn cael ei gydnabod a'i werthfawrogi, ond fe wnaeth cynrychiolwyr feirniadu arweinwyr am ddiffyg cysondeb, a gwthio penderfyniadau yn ôl (e.e., y terfyn 20mya) i ennill cefnogaeth wleidyddol.

Lefelau cerdded a rhannu modd

Yn ôl Llywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru, 2023d), yn 2022/23:

- Roedd dros hanner (51%) y bobl 16+ oed yng Nghymru yn cerdded o leiaf unwaith yr wythnos at ddibenion teithio llesol.³
- Roedd dros chwech o bob deg (62%) o'r rheiny a oedd yn byw mewn ardaloedd trefol yn cerdded am fwy na 10 munud fel dull trafndiaeth o leiaf unwaith y mis, o'i gymharu â thua hanner (52%) o'r rhai a oedd yn byw mewn ardaloedd gwledig.

Yn absenoldeb data swyddogol ar gyfran y modd ar gyfer pob taith yng Nghymru, amcangyfrifwyd bod cyfran modd cerdded yn 25% o'r holl deithiau yng Nghymru yn 2019 (Sloman a Taylor, 2021).

Mae'r ystadegau hyn yn tynnu sylw at y potensial ar gyfer mwy o gerdded, sydd â manteision lluosog i'r economi, iechyd a lles, y gymuned a'r amgylchedd (gweler y prif adroddiad). Amlygodd y cynrychiolwyr fod angen cydnabod a darparu'n dda ar gyfer rôl bwysig, yn enwedig ar gyfer teithiau byrrach yng nghyffiniau ardaloedd preswyl sy'n cysylltu pobl â mwynderau, addysg, gwasanaethau a gweithgareddau cymdeithasol, a bod hefyd angen darparu ar gyfer anghenion cerdded pobl mewn ardaloedd gwledig a chymunedau llai. Mae angen mwy o gyllid hefyd ar gyfer palmentydd ehangach sy'n cael eu cynnal yn well ledled Cymru.

³ Er ei bod yn ymddangos bod hyn yn ostyngiad o 60% yn 2019/20, bu newidiadau yn y ffordd mae'r arolwg yn casglu data sy'n gwneud cymhariaeth uniongyrchol yn anodd.

TABL W1

Ffrydiau ariannu diweddar a chyfredol ar gyfer gwelliannau strydoedd mawr, tir y cyhoedd a cherdded yng Nghymru

ENW'R GRONFA	CYLLID (£)	DISGRIFIAD	CENEDL	CYFEIRNOD
Trawsnewid Trefi Cymru	£100 miliwn (2022-25)	Un gronfa a grëwyd yn 2020 i ailddatblygu a gwella canol trefi neu eu hardaloedd cyfagos sy'n cynnwys cyllid benthyciadau (a).	Cymru	Llywodraeth Cymru, heb ddyddiad b.
Y Gronfa Teithio Llesol	£72 miliwn (2023-24)	Cronfa i gefnogi'r gwaith o ddarparu cynlluniau teithio llesol ledled Cymru gan awdurdodau lleol. Yn cynnwys cyfuniad o gyllid craidd a phroses ymgeisio cystadleuol.	Cymru	Llywodraeth Cymru, 2021c. Howorth, 2023.
Llwybrau Diogel mewn Cymunedau (wedi cau)	£5 miliwn (2024-25)	Cyllid cyfalaf ar gyfer prosiectau llwybrau cerdded, mynd ar olwynion a beicio i'r ysgol a Strydoedd Ysgol.	Cymru	Llywodraeth Cymru, 2023e.
Y Gronfa Ffyniant Bro (rownd 3 wedi cau)	£4.8 biliwn	Cronfa ar gyfer seilwaith gan gynnwys adfywio canol trefi a strydoedd mawr, uwchraddio trafndiaeth leol, a buddsoddi mewn asedau diwylliannol a threftadaeth.	Y DU	Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau, 2021.
Y Gronfa Ffyniant Gyffredin (dyraniad terfynol 2023/24)	£2.6 biliwn	Cyllid ar gyfer gwelliannau i ganol trefi a strydoedd mawr, gan gynnwys gwell hygyrchedd i bobl anabl, yn cynnwys gwariant cyfalaf a chostau rhedeg. Mae pob ardal yn y DU yn derbyn dyraniad drwy fformiwla ariannu.	Y DU	Fel uchod
Cronfa Perchnogaeth Gymunedol y DU (rownd 4, rownd olaf)	£150 miliwn	Cronfa i gefnogi cyfleusterau lleol, asedau cymunedol ac amwynderau.	Y DU	Fel uchod

(a) Dangosodd adroddiad Archwilio Cymru 2021 fod Llywodraeth Cymru, ers 2014, wedi buddsoddi bron i £900 miliwn mewn adfywio drwy nifer o gynlluniau gan gynnwys Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid (2014-17); Benthyciadau Canol Trefi (2014-2020 a 2020-2022); Adeiladu ar gyfer y Dyfodol (2017-2023); Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio (2018-2021); Cyllid Trefi Tasglu'r Cymoedd (2020-2021); Cronfa Trefi Arfordirol (2017-2023); a'r Gronfa Seilwaith Gwyrdd a Bioamrywiaeth (2018-2021) (Archwilio Cymru, 2021).

Cyd-destun ariannu

Mae nifer o gronfeydd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU sydd wedi cael eu defnyddio'n ddiweddar neu y gellir eu defnyddio ar gyfer gwelliannau ar y stryd fawr, tir y cyhoedd a cherdded yng Nghymru. Mae'r rhain i'w gweld yn Nhabl W1. Rhwng 2014 a 2021, fe wnaeth Llywodraeth Cymru fuddsoddi'n uniongyrchol neu roi tua £900 miliwn o gyllid i adfywio canol trefi (Archwilio Cymru, 2021).

Mae'r Senedd wedi argymhell y dylid gosod cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer teithio llesol ar £17-£20 y pen y flwyddyn (Howorth, 2023). Roedd dyraniadau cyllid teithio llesol i awdurdodau lleol ar gyfer 2023/24 ychydig dros £20 y pen (Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith, 2023).

Canfyddiadau'r gweithdy

Yn y gweithdy rhanddeiliaid yng Nghymru, cafwyd cefnogaeth gref i'r dyraniad craidd o'r Gronfa Teithio Llesol i awdurdodau lleol, yn ogystal â ffocws lles ac 'economi sylfaenol' Llywodraeth Cymru⁴. Ystyriwyd bod diffyg cyllid cynnal a chadw yn fater mawr, gyda thoriadau i gyllidebau, gan fod hyn yn dylanwadu ar ddyluniad cynlluniau tir y cyhoedd, gydag elfennau a allai gael eu hystyried fel baich cynnal a chadw yn cael eu lleihau neu eu gadael allan o gynlluniau. Nodwyd bod y difrod a wnaed i strydoedd gan gwmnïau cyfleustodau hefyd yn broblem. Roedd cytundeb eang ar yr angen am fwy o gyllid refeniw (ynghyd â chyllid cyfalaf) er mwyn galluogi rheoli cynlluniau yn well ac i ddarparu hyfforddiant ac ymgysylltu. Roedd colli cyllid Ewropeaidd a'r diffyg sicrwydd ariannu hirdymor (gyda diwedd Cronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU) yn cael eu hystyried yn anafanteisiol i Gymru. Yn olaf, cytunodd y cynrychiolwyr y gall dylunio gwael gostio cymaint yn y tymor hir â dylunio da (er enghraifft, oherwydd yr angen am ailosod yn gynharach), ac felly gallai mwy o amser ac adnoddau mewn dyluniad da ymlaen llaw arbed arian yn y tymor hir.

⁴ Diffinnir gan rai fel "y rhan honno o'r economi sy'n creu ac yn dosbarthu nwyddau a gwasanaethau a ddefnyddir gan bawb (waeth beth fo'u hincwm a statws) oherwydd eu bod yn cefnogi bywyd bob dydd" (IWA, 2019).

Cyflwyno a gwerthuso

Canfu adroddiad 2021 gan Archwilio Cymru, er gwaethaf cyllid sylweddol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer adfywio canol trefi, bod nifer o drefi yn parhau i gael trafferth, yn bennaf oherwydd diffyg capasiti a sgiliau o fewn awdurdodau lleol (Archwilio Cymru, 2021). Nid oedd y pwerau i helpu i ysgogi adfywio chwaith yn cael eu defnyddio'n effeithiol nac yn gyson. Nododd Archwilio Cymru hefyd nad oedd polisi Canol Trefi yn Gyntaf wedi'i ymgorffori'n llawn, ac roedd angen gwerthfawrogi a defnyddio gwybodaeth yn well i ddeall y problemau a nodi beth sy'n gweithio. Ymatebodd Llywodraeth Cymru i hyn drwy ddatblygu a chyhoeddi Datganiad Sefyllfa Canol Trefi (gweler yr adran Cyd-destun Polisi yn gynharach).

Dangosodd ymchwil ar gyfer Senedd Cymru bod cyllid ar gyfer teithio llesol yn fwy na argymhelliad y Senedd o £17-20 y pen yn 2023/24 (Howorth, 2023). Ond er bod cyllid wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, nid yw hyn wedi cyfieithu i gynnydd mewn teithio llesol, nad yw wedi cynyddu'n sylweddol ers 2013 (ibid.). Nododd panel adolygu arbenigol trawsbleidiol yn y Senedd nad oedd y Ddeddf Teithio Llesol wedi gwireddu ei llawn botensial, yn enwedig ar gyflenwi, ond fe wnaeth dalu teyrnged i'r cynnydd sylweddol, lefel yr ewyllys wleidyddol a mwy o ffocws gwleidyddol ar deithio llesol (ibid.) Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gynllun Cyflawni Trafnidiaeth cenedlaethol newydd yn 2022, gydag ystod o fesurau integredig ar deithio llesol (Llywodraeth Cymru, 2022a).

Nid yw'n glir sut y gallai'r newidiadau arweinyddiaeth wleidyddol yn 2024 effeithio ar gyflawni, cyllid ac ewyllys wleidyddol ar dir y cyhoedd a theithio llesol.

Y prif offeryn arfarnu a gwerthuso penodol i Gymru ar gyfer teithio llesol yw canllawiau arfarnu trafndiaeth Cymru (WeITAG).

WeITAG yw fframwaith Llywodraeth Cymru i asesu'r achos strategol dros newidiadau arfaethedig i'r system drafnidiaeth (Llywodraeth Cymru, 2017b). Mae'n cynnwys arfer gorau ar gyfer datblygu, arfarnu a gwerthuso ymyriadau trafndiaeth arfaethedig yng Nghymru. Cyflwynwyd y canllawiau diweddaraf ar gyfer ymgynghori yn 2022 i'w alinio â Strategaeth Drafnidiaeth Cymru newydd: Llwybr Newydd (Llywodraeth Cymru, 2024d). Mae'r fersiwn wedi'i ddiweddarau o'r canllawiau yn rhoi llai o bwyslais ar ddefnyddio cymarebau cost-budd, a mwy o bwyslais ar les a ffactorau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ehangach.

Mae rhagor o wybodaeth am werthuso ar gael yn y Briff Gwerthuso sy'n cyd-fynd â'r rhifyn hwn o The Pedestrian Pound.

Canfyddiadau'r gweithdy

Yn y gweithdy rhanddeiliaid yng Nghymru, cytunwyd yn gyffredinol bod consensws ar draws adrannau'r cyngor ar amcanion eang ar gyfer cyflawni'r cynllun, sy'n awgrymu ymagwedd fwy cyd-gysylltiedig tuag at bolisi nag mewn gwledydd eraill. Cafwyd cefnogaeth hefyd i'r pwyslais cryf ar Hierarchaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy yng Nghymru a'r ffaith bod cerdded yn cael ei flaenoriaethu yn Llwybr Newydd a'r Ddeddf Teithio Llesol a chanllawiau cysylltiedig 2022. Nododd y cynrychiolwyr hefyd fod lefelau da o ymgysylltu cymunedol yn gyffredinol wrth ddylunio cynlluniau yng Nghymru, o bosibl o ganlyniad i'r pwyslais ar ddull creu lleoedd a'r ffyrdd o weithio a nodir yn Ndeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Ar yr ochr negyddol, teimlai y cynrychiolwyr fod capasiti awdurdodau lleol yn isel ar y cyfan ac yn amrywiol ymrwymiad gwleidyddol, gyda gormod o weithio seilo. Cytunwyd bod diffyg cydlynu rhwng adrannau ar greu lleoedd a diffyg hyfforddiant a gweledigaeth o fewn awdurdodau lleol. Mae ffocws mawr hefyd ar fesurau a chyllid tymor byr, a diffyg rhaglenni cyflawni tymor hwy. Argymhellodd y cyfranogwyr fonitro' effeithiau cynlluniau tir y cyhoedd yn well, gydag angen am dystiolaeth gadarn, data hydredol a metrigau safoni.

Argymhellion

Roedd yr argymhellion allweddol gan gynrychiolwyr o weithdy rhanddeiliaid Cymru yn cynnwys y canlynol:

Polisi

- Angen am arweinyddiaeth wleidyddol a chysondeb ar bolisiau trafnidiaeth (ar lefel Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol).
- Mwy o bolisiau wedi'u sbarduno gan dystiolaeth.
- Polisiâu sy'n grymuso cymunedau i ofalu am eu lle yn well.

Cyllid

- Mwy o gyllid refeniw (ynghyd â chyllid cyfalaf) i reoli cynlluniau yn well ac ar gyfer hyfforddiant ac ymgysylltu.
- Cyllid cynnal a chadw wedi'i neilltuo o gronfeydd cyfalaf ar gyfer cyfnodau cynnal a chadw pum mlynedd.
- Sicrwydd cyllid hirdymor gan Lywodraeth y DU.
- Mwy o adnoddau i sicrhau dyluniad da.
- Penderfyniadau cyflymach ar y Gronfa Ffyniant Gyffredin.
- Aiddyrannu buddsoddiad i ddulliau trafnidiaeth gynaliadwy.

Cyflawni

1. Mwy o gyfleusterau lleol mewn trefi bach.
2. Defnydd tir a chynllunio nad yw'n cael ei ddominyddu gan geir, a mwy o fesurau i sicrhau bod pobl heb geir yn cael eu gwasanaethu.

Gwerthuso

- Cyllid pwrpasol yn cael ei ddyrannu i werthuso fel rhan o'r holl fentrau.
- Cyllid ar gyfer monitro a gwerthuso cyn ac ar ôl i'w gostio'n gynlluniau.

Nododd y cynrychiolwyr y gwrthdaro posibl rhwng ffrydiau ariannu gan eu llywodraethau eu hunain o'i gymharu â'r rhai o lywodraeth y DU a all gael blaenoriaethau gwahanol.

Mae rhai o'r argymhellion uchod, sy'n gyffredin i'r tair cenedl, wedi'u cynnwys yn y prif adroddiad.

Astudiaethau achos

Gweler yr astudiaethau achos sy'n cyd-fynd â'r rhifyn hwn o The Pedestrian Pound am enghreifftiau o welliannau i'r maes cyhoeddus yng Nghymru — ac ar draws y DU — sydd wedi bod o fudd i gerddwyr.

CYFIERNODAU

Archwilio Cymru (2021) Adfywio Canol Trefi yng Nghymru. Adroddiad, Medi 2021. <https://www.audit.wales/publication/regenerating-town-centres-wales> (cyrchwyd 11/07/24).

Cymdeithas Feddygol Prydain (2019) Get a move on. Steps to increase physical activity levels in the UK. Adroddiad, 20/06/19. <https://www.bma.org.uk/media/2104/bma-physical-activity-briefing-get-move-on-oct-19-v2.pdf> (cyrchwyd 11/07/24).

Bone, Jonathan (2024) A third of adults in Wales live with obesity, according to new analysis. Blog ar gyfer Nesta, 23/04/24. <https://www.nesta.org.uk/blog/a-third-of-adults-in-wales-live-with-obesity-according-to-new-analysis/> (cyrchwyd 11/07/24).

Browne Jacobson (2024) The Air Quality and Soundscapes (Wales) Act 2024: How might the Act affect local authorities in Wales? Erthygl, 22/04/24. <https://www.brownejacobson.com/insights/the-air-quality-and-soundscapes-wales-act-2024> (cyrchwyd 11/07/24).

Prifysgol Caerdydd (heb ddyddiad) Pecyn Cymorth Creu lleoedd lleoedd ar gyfer Cymru: Gwella tir y cyhoedd yn ein trefi a'n dinasoedd. Tudalen we, heb ddyddiad.

<https://www.cardiff.ac.uk/research/explore/find-a-project/view/2779387-placemaking-toolkit-for-wales-improving-the-public-realm-in-our-towns-and-cities> (cyrchwyd 11/07/24).

Memorandwm y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith (2023) ar Gynigion Cyllideb Ddrafft Newid Hinsawdd ar gyfer 2023-24. Adroddiad ar gyfer Senedd Cymru. 19/23/23. <https://business.senedd.wales/documents/s133006/Paper%20-%20Welsh%20Government%20Climate%20Change%20Draft%20Budget%202023-24.pdf> (cyrchwyd 11/07/24).

Gwefan Comisiwn Dylunio Cymru (heb ddyddiad). <https://dcfw.org/> (cyrchwyd 11/07/24).

Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau a'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (2021) Buddsoddiadau Ffyniant Bro a chymunedol newydd. <https://www.gov.uk/government/collections/new-levelling-up-and-community-investments> (cyrchwyd 11/07/24).

Francis-Devine B (2023) Average earnings by age and region. Briff Ymchwil Ty'r Cyffredin, 18/12/23. <https://commonslibrary.parliament.uk/research-briefings/cbp-8456/>

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (heb ddyddiad). Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Tudalen we, heb ddyddiad. <https://www.futuregenerations.wales/about-us/future-generations-act> (cyrchwyd 11/07/24).

Howorth, Francesca (2023) Y Ddeddf Teithio Llesol: 10 mlynedd yn ddiweddarach. Erthygl ar gyfer Senedd Cymru, 09/11/23. <https://research.senedd.wales/research-articles/the-active-travel-act-10-years-on> (cyrchwyd 11/07/24).

IWA (2019) What is the 'foundational economy'? Erthygl gan Rhys ap Gwilym ar wefan IWA 11/02/19. <https://www.iwa.wales/agenda/2019/02/what-is-the-foundational-economy/> (cyrchwyd 11/07/24).

Swyddfa Ystadegau Gwladol (2024) Amcangyfrifon poblogaeth ar gyfer y DU, Lloegr, Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon: canol 2022. Wedi'i ryddhau, 26/03/24. <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/bulletins/annualmidyearpopulationestimates/latest> (cyrchwyd 11/07/24).

People's Health Trust (2022) Cymru. Tudalen we ar anghydraddoldebau iechyd. <https://www.peopleshealthtrust.org.uk/health-inequalities/the-national-picture/wales#:~:text=In%20Wales%2C%20men%20living%20in,fewer%20years%20in%20good%20health> (cyrchwyd 11/07/24).

Comisiwn Partneriaeth a Dylunio Creu Lleoedd Cymru (2020) Canllaw Creu Lleoedd. <https://dcfw.org/wp-content/themes/dcfw-child/assets/PlacemakingGuideDigitalENG.pdf> (cyrchwyd 11/07/24).

Cymorth Cynllunio Cymru (heb ddyddiad) Cynlluniau Bro. Gwefan a phhecyn cymorth. <https://www.placeplans.org.uk/en/> (cyrchwyd 11/07/24).

RTPI (heb ddyddiad) Partneriaeth a Siarter Creu Lleoedd Cymru. Tudalen we, heb ddyddiad. <https://www.rtpi.org.uk/find-your-rtpi/rtpi-nations/rtpi-cymru/policy-and-research/placemaking-wales-partnership-and-charter/> (cyrchwyd 11/07/24).

Sloman L a Taylor I (2021) Modal share targets for Wales. Adroddiad Transport for Quality of Life ar gyfer Llywodraeth Cymru, Ionawr 2021. <https://transportforqualityoflife.com/wp-content/uploads/2023/11/210115-modal-share-targets-for-wales.pdf> (cyrchwyd 11/07/24).

Sustrans Cymru (2022) Gwneud y Cysylltiad. Pam mae'n rhaid i Gymru weithredu nawr i fynd i'r afael â thlodi trafndiaeth a sicrhau mynediad i bawb. Adroddiad ar gyfer Sustrans Cymru, Mai 2022. https://www.sustrans.org.uk/media/10456/transportpovertypaper-sustrans_eng.pdf (cyrchwyd 11/07/24).

Llywodraeth Cymru (2017a) Ein Blaenoriaethau. Tudalen we, 01/09/17. <https://www.gov.wales/our-priorities> (cyrchwyd 11/07/24).

Llywodraeth Cymru (2017b) WelTAG 2017. Canllawiau Arfarnu Trafnidiaeth Cymru. <https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2017-12/welsh-transport-appraisal-guidance.pdf> (cyrchwyd 11/07/24).

Llywodraeth Cymru (2020a) Adeiladu Lleoedd Gwell. Mae'r system gynllunio yn darparu dyfodol gwydn a disglair. Creu lleoedd ac adferiad Covid-19. Gorffennaf 2020. <https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2020-07/building-better-places-the-planning-system-delivering-resilient-and-brighter-futures.pdf> (cyrchwyd 11/07/24).

Llywodraeth Cymru (2020b) Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 Ebrill 2020. <https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2020-04/strategic-equality-plan-equality-aims-objectives-actions-2020-2024.pdf> (cyrchwyd 11/07/24).

Llywodraeth Cymru (2021a) Dyfodol Cymru — y Cynllun Cenedlaethol. Adroddiad, 24/02/21. <https://www.gov.wales/future-wales-national-plan-2040> (cyrchwyd 11/07/24).

Llywodraeth Cymru (2021b) Llwybr Newydd: Strategaeth drafndiaeth Cymru 2021. Adroddiad polisi, 19/03/21. <https://www.gov.wales/llwybr-newydd-wales-transport-strategy-2021> (cyrchwyd 11/07/24).

Canllawiau Deddf Teithio Llesol Llywodraeth Cymru (2021c) Gorffennaf 2021. <https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2022-01/active-travel-act-guidance.pdf> (cyrchwyd 11/07/24).

Llywodraeth Cymru (2022a) Cynllun cyflawni trafndiaeth cenedlaethol 2022 i 2027. Chwefror, 2022. <https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2023-02/national-transport-delivery-plan-2022to2027.pdf> (cyrchwyd 11/07/24).

Llywodraeth Cymru (2023a) Canol trefi: datganiad sefyllfa 02/05/23. <https://www.gov.wales/town-centres-position-statement.html> (cyrchwyd 11/07/24).

Llywodraeth Cymru (2023b) Tasglu Hawliau Anabledd. Tudalen we, wedi'i ddiweddarau 16/01/23. <https://www.gov.wales/disability-rights-taskforce/about-us> (cyrchwyd 11/07/24).

Llywodraeth Cymru (2023c). Adolygiad Ffyrdd. Adroddiad, 14/02/23. <https://www.gov.wales/roads-review> (cyrchwyd 11/07/24).

Llywodraeth Cymru (2023d) Teithio Llesol (cerdded a beicio): Ebrill 2022 i Mawrth 2023. 30/08/23. <https://www.gov.wales/active-travel-walking-and-cycling-april-2022-march-2023.html> (cyrchwyd 11/07/24).

Llywodraeth Cymru (2023e) Grantiau llwybrau diogel mewn cymunedau: canllawiau i ymgeiswyr 2024 i 2025. diweddarau 21/12/23.

Llywodraeth Cymru (2024a) Polisi Cynllunio Cymru. Argraffiad 12, Chwefror 2024. https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2024-02/planning-policy-wales-edition-12_1.pdf (cyrchwyd 11/07/24).

Llywodraeth Cymru (2024b) Deddf Cynllunio (Cymru) 2015. Tudalen we, wedi'i ddiweddarau 30/04/24. <https://law.gov.wales/planning-wales-act-2015> (cyrchwyd 11/07/24).

Llywodraeth Cymru (2024c) Cyflwyno terfynau cyflymder 20mya diofyn. Tudaln we wedi'i diweddarau 13/05/24. <https://www.gov.wales/introducing-default-20mph-speed-limits> (cyrchwyd 11/07/24).

Llywodraeth Cymru (2024d) Canllawiau arfarnu trafndiaeth Cymru (WelTAG) 2022. Dogfen ymgynghori. Diweddarwyd 31/01/24. <https://www.gov.wales/welsh-transport-appraisal-guidance-weltag-2022> (cyrchwyd 11/07/24).

Llywodraeth Cymru (heb ddyddiad a). Bwrdd Teithio Llesol. Tudalen we, heb ddyddiad. <https://www.gov.wales/active-travel-board> (cyrchwyd 11/07/24).

Llywodraeth Cymru (heb ddyddiad b) Trawsnewid Trefi: cymorth i wella canol trefi. Canllawiau, heb ddyddiad. <https://www.gov.wales/support-improve-town-centres> (cyrchwyd 11/07/24).

Senedd Cymru (2023) Deddf Teithio Llesol: 10 mlynedd yn ddiweddarach. Erthygl, 09/11/23. <https://research.senedd.wales/research-articles/the-active-travel-act-10-years-on> (cyrchwyd 11/07/24).

Woods M, Heley J, Howells H a Goodwin-Hawkins (2021) Gweledigaeth wledig i Gymru. Cymunedau ffyniannus. Yr adroddiad tystiolaeth. Adroddiad gan Brifysgol Aberystwyth, Ionawr 2021. <https://rural-urban.eu/sites/default/files/Rural%20Vision%20Evidence%20Report%20Final%20Eng.pdf> (cyrchwyd 11/07/24).